# BWRDD CYNALIADWYEDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2012 (11:00am)

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Comisiynydd Gareth Jones (Cadeirydd)<br><br>Y Comisiynwyr Alex Aldridge; M. Giannasi.<br>Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, K. P. Hughes, H. Eifion Jones, B. Owen, G. O. Parry MBE, R. G. Parry OBE, Selwyn Williams (fel Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol), Tom Jones (fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio), Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol (yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol), Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol), Swyddog Adran 151 Dros Dro, Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid). |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor<br>Mr. John Roberts (SAC) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr B. Durkin, E. Schofield, Dr. Joanne Harvatt (Enventure Research). |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Comisiynwyr Byron Davies, Margaret Foster,<br>Y Cynghorwyr O. Glyn Jones, T. Ll. Hughes, Mr. Doug Elliott (Ymgynghorydd SAC), Rheolydd Gwasanaethau Adnoddau Dynol. |

---

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim.

### 2 YMDDIHEURIADAU

Dim.

### 3 COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd y cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Gwella a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2012 fel rhai cywir.

<u>Eitem 6 – Gwella capasiti, ansawdd a rheolaeth yn y gwasanaethau cefnogaeth gorfforaethol</u>

Soniodd y Cynghorydd G. O. Parry MBE ei fod wedi dwyn sylw'r swyddog cyfreithiol ddoe at y ffaith nad oedd galwadau yn cael eu hateb mewn sawl adran yn y Cyngor a bod gan y prif dderbynfa restr o alwadau yr oedd angen eu hateb.  Roedd yn ystyried fod hwn yn fater difrifol yr oedd angen rhoi sylw iddo.

Nododd y Cadeirydd y sylwadau a gofynnodd i'r Prif Weithredwr ddilyn y mater i fyny gyda'r adrannau perthnasol.

## 4 CYLCH GORCHWYL – MÂN NEWID

Cyflwynwyd er gwybodaeth, gopi diwygiedig o'r cylch gorchwyl ar gyfer cyfarfodydd o'r Bwrdd hwn. Er mwyn bod yn gyfansoddiadol gywir, roedd y Bwrdd hwn yn bwyllgor ymgynghorol yn hytrach na bod yn bwyllgor ffurfiol o'r Cyngor Sir. Nodwyd hefyd fod enw'r Bwrdd wedi ei newid o'r Bwrdd Gwella i'r Bwrdd Cynaliadwyedd.

*Nododd a derbyniodd y Bwrdd Cynaliadwyedd y mân newidiadau i'r cylch gorchwyl.*

## 5 CASGLIADAU'R AROLWG DINASYDDION YN 2012

Cafwyd cyflwyniad gan Dr. Joanne Harvatt, Rheolydd Ymchwil, Enventure Research ar ganlyniad arolwg Dinasyddion Ynys Môn am 2012.

Adroddwyd bod y Cyngor yn diweddaru ac yn ailaleinio ei Gynllun Corfforaethol a'i gynlluniau darparu gwasanaeth ac, o'r herwydd, roedd canfyddiadau, blaenoriaethau a boddhad trigolion yn rhan allweddol o gynlluniau busnes a pherfformiad y Cyngor. Byddai casgliadau'r arolwg yn cael eu defnyddio i siapio'r blaenoriaethau ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus ac i nodi a oedd yna unrhyw wahaniaethau lleol.

Cwblhawyd dros 1,100 o holiaduron dros y ffôn a rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr siarad un ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Roedd y sylwadau yn cael eu hymgorffori yn y Cynllun Busnes Corfforaethol diwygiedig a byddai'r casgliadau allweddol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Roedd y canlyniadau wedi bod yn hynod o gadarnhaol yn y meysydd isod:-

- Boddhad cyffredinol gyda'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu
- Ymwybyddiaeth o wasanaethau
- Rhwyddineb cael gafael ar bobl yn y Cyngor
- Y canfyddiad o'r mynediad i wasanaethau.

Fodd bynnag, efallai y bydd angen edrych eto ar yr agweddau isod:-

- Y weledigaeth a sut roedd hi wedi ei chysylltu â chanlyniadau.
- Adeiladu hyder yn y Cyngor
- Ymgysylltiad rheolaidd
- Codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd hyfforddi dan y Rhaglen Ynys Ynni ymysg pobl ifanc
- Canfyddiad busnesau o flaenoriaethau.

Byddai cael sylwadau rheolaidd yn golygu y byddai gan y cyhoedd fwy o ymddiriedaeth yn y Cyngor a byddai hefyd yn cynorthwyo i daro cydbwysedd rhwng sylwadau negyddol a chadarnhaol am y Cyngor.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau.

Dywedodd y Comisiynydd Mick Giannasi mai hwn oedd yr arolwg cwsmeriaid cyntaf yr oedd yr Awdurdod wedi'i wneud ers dros 10 mlynedd. Gellid dibynnu ar y dystiolaeth a gyflwynir heddiw fel tystiolaeth gweddol dda o'r hyn y mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei feddwl, a gellid ei ddefnyddio hefyd fel sail ar gyfer penderfyniadau rhesymedig er mwyn symud yr Awdurdod yn ei flaen. Yn ei farn ef, roedd yn bwysig cael arolygon pellach yn rheolaidd yn dilyn yr arolwg hwn. Pe na bai'r Awdurdod yn buddsoddi i wneud hwn yn rhan reolaidd o'i fframwaith perfformiad ni fyddai modd pwyso a mesur a oedd yr Awdurdod yn symud ymlaen ai peidio. Roedd y sylfeini eisoes wedi eu gosod 6 mis yn ôl gyda'r Cyngor yn cymeradwyo'r Strategaeth Ymgysylltiad Cymunedol a oedd yn amlinellu fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau i bobl.

*Nodwyd cynnwys y cyflwyniad gan y Bwrdd Cynaliadwyedd a diolchwyd i gynrychiolydd Enventure am ei gwaith manwl yn y cyswllt hwn.*

## 6 CERDYN SGORIO PERFFORMIAD CORFFORAETHOL – PERFFORMIAD CHWARTER 3

Cyflwynodd y Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes adroddiad ar Gerdyn Sgorio Perfformiad Chwarter 3 2011/12 ar gyfer Blaenoriaethau Llywodraethu Corfforaethol y Comisiynwyr ynghyd â'u statws CAG.

Roedd rhan gyntaf yr adroddiad eisoes wedi ei chyflwyno i'r cyfarfod hwn ym mis Ionawr. Ers hynny, cafwyd cyfarfodydd perfformiad chwarterol a oedd yn rhoi arwydd o'r sefyllfa gyfredol mewn perthynas â'n blaenoriaethau strategol ar gyfer datblygu'r economi, datblygiadau cynaliadwy, cymunedau iach a diogel, gwasanaethau effeithiol a fforddiadwy a chodi proffil economaidd a chymdeithasol yr Ynys.

Er bod y rhan fwyaf yn ambr, nododd bod blaenoriaethau 1 a 5 yn agos iawn i fod yn wyrdd o ran y datblygiadau a'r gwaith a wnaed.

Dywedodd y Comisiynydd Mick Giannasi fod adroddiadau chwarterol y Comisiynwyr yn seiliedig ar 10 thema allweddol hyd at yr adroddiad Chwarter 3. Roedd yn dangos bod un maes yn achosi pryder, sef cynaliadwyedd yr adferiad yn y gwasanaethau canolog. Roedd yr adroddiad Chwarter 3 yn dangos faint o gynnydd yr oedd y Cyngor wedi ei wneud ac roedd hynny wedi ei adlewyrchu yn yr adroddiad gan SAC a gyflwynwyd i'r Cyngor yn ddiweddar. Roedd yr adroddiad yn dangos bod dau faes yn goch ond ciplun ar adeg benodol oedd hwn. Roedd y statws CAG yn seiliedig ar lle roedd y Comisiynwyr yn ystyried y dylent fod ar adeg benodol ac felly roedd y darlun yn newid yn gyson. Roedd rhaid i'r Awdurdod sicrhau bod yr hyn sy'n ymddangos yn yr adroddiad Chwarter 4 yn adlewyrchu'r sefyllfa cyn gywired â phosib.

*Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan y Bwrdd Cynaliadwyedd.*

## 7 CYNLLUN Y CYNGOR O RAN CAMAU LLINIARU AC YMATEB I ARCHWILIAD DIOGELU PLANT A WNAED GAN AGGCC

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) – bod yr Asesiad o Waith Rheoli Gofal Plant Mewn Angen a wnaed ym mis Chwefror 2011 yn dangos diffygion difrifol o ran materion diogelu plant a bod angen cynnal arolygiad pellach o'r herwydd. Edrychodd yr arolygiad ym mis Hydref 2011 ar ansawdd y gwasanaeth diogelu a gallu'r Cyngor i gynnal a gwella'r gwasanaeth.

Daeth yr adroddiad i'r casgliadau isod:

- Bod angen cynyddu cyflymder a dyfnder y gwelliant (er gwaethaf cydnabod fod rhaglen wella wedi ei sefydlu ers Medi 2011)
- Gwelliannau cyfyngedig i'r gwaith diogelu ers Chwefror 2011.
- Gwasanaethau diogelu plant yn wael gyda threfniadau rheoli risg aneffeithiol.
- Angen gwella'r modd o asesu, rheoli gofal a'r broses gwneud penderfyniadau i ddiogelu plant fel blaenoriaeth.
- Trefniadau arwain yn y Cyngor yn annigonol i gwrdd â'r rhaglen wella angenrheidiol.

Materion cadarnhaol yn codi o'r arolygiad:-

- Roedd staff a'r tîm rheoli yn fwy cadarnhaol ac yn uwch eu cymhelliant
- Lefelau staffio gwell
- Cafwyd gwybod gan rai asiantaethau eraill am beth cynnydd o ran arferion a chyfathrebu.
- Asesiadau cychwynnol yn cael eu gwneud mewn dull mwy amserol ac effeithiol.

Aeth cyflwyniad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro ymlaen i sôn am y Cynllun Gweithredu isod fel ymateb y Cyngor i gasgliadau'r arolygiad:-

- Casgliadau allweddol – cyfrifoldebau corfforaethol
- Polisi, gweithdrefnau, protocolau a systemau
- Asesu a rheoli achosion
- Monitro, Sicrhau Ansawdd a systemau rheoli gwybodaeth
- Y gweithlu, sesiynau cynefino, hyfforddiant a datblygiad parhaus.
- Y cynnydd a wnaed eisoes
- Rheidrwydd Strategol 1 – adfer ac yna symud ymlaen
- Rheidrwydd Strategol 2 – ailosod y weledigaeth; cyfarparu, cryfhau a diogelu.

*Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan y Bwrdd Cynaliadwyedd, gan gydnabod y camau a gymerwyd eisoes gan y Gwasanaeth i roi sylw i'r diffygion.*

**8 PARATOADAU'R CYNGOR AR GYFER YR AROLYGIAD SYDD AR Y GWEILL GAN ESTYN**

Cyflwynwyd – dogfen ganllaw gan Estyn yn nodi'r ffordd y byddai'r Arolygiaeth yn arolygu gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc am y cyfnod arolygu 6 mlynedd o 2010 ymlaen. Byddai pob awdurdod lleol yn cael arolygiad craidd yn nhair blynedd gyntaf y cylch 6 blynedd. Byddai'r arolygiad craidd yn digwydd yn Ynys Môn yn yr wythnos sy'n dechrau 21 Mai 2012. Yn ystod tair blynedd olaf y cylch hwnnw, byddai awdurdod lleol yn cael ail archwiliad.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg a Hamdden) – Y byddai'r Arolygwyr yn pwyso a mesur y ddarpariaeth ac yn dod i ddau gasgliad allweddol cyffredinol ar ôl ystyried y tri dangosydd allweddol (Pa mor dda yw'r canlyniadau; pa mor dda yw'r ddarpariaeth a pha mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth). Torrwyd pob dangosydd allweddol i lawr i ddangosyddion ansawdd a oedd yn cynnwys nifer o agweddau.

Byddai'r ddau ddyfarniad cyffredinol, y tri chwestiwn allweddol a'r dangosyddion ansawdd a restrir yn cael eu graddio fel a ganlyn - ardderchog, da, digonol neu anfoddhaol. Byddai'r adroddiad hefyd yn nodi a oedd angen i'r awdurdod lleol gymryd unrhyw gamau dilyn i fyny yn sgil yr arolygiad. Rhaid i awdurdodau lleol baratoi a chyhoeddi cynllun gweithredu cyn pen 50 diwrnod i dderbyn adroddiad arolygu gan yr arolygiaeth.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai'r Uwch Grŵp Arweinyddiaeth newydd yn awyddus i ddelio gydag adroddiadau arolygu a chynlluniau gweithredu ar sail cyfrifoldeb corfforaethol a chyfrifoldeb ar y cyd yn y dyfodol yn hytrach na'r hen drefn o'u trin fel materion gwasanaeth.

Ar gyfer yr arolwg penodol hwn, byddai'n rhaid i'r Awdurdod ddarparu hunanasesiad trwyadl o'i berfformiad erbyn cychwyn mis Ebrill a'i gyflwyno i'r Arolygwyr. Er mwyn cyplysu Addysg gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol, byddai aelod o dîm yr Awdurdod yn dod o gefndir Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd hwn yn arolygiad ar lefel awdurdod cyfan a byddai'n edrych ar bob agwedd ar y Cyngor a oedd yn cefnogi'r Gwasanaeth Addysg. Byddai'n arolwg o'r holl wasanaethau a ddarperir ar gyfer plant a phobl ifanc a byddai'n llawer ehangach na dim ond y ddarpariaeth addysgol yn ysgolion y Sir.

Byddai lleoedd gweigion yn yr ysgolion yn fater a fyddai'n cael sylw unwaith yn rhagor. Fodd bynnag, roedd yr Awdurdod wedi cau 4 ysgol ers 2009 ac roedd cynlluniau hefyd wedi eu sefydlu i ddelio gydag ad-drefnu yng Nghaergybi a'r ardaloedd gwledig.

*Nododd y Bwrdd Cynaliadwyedd gynnwys yr adroddiad.*

**9 TREFNIADAU RHEOLI RISG AR GYFER CYLLIDEB 2012-13**

Dywedodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro – Bod yr Adran Gyllid wedi ceisio categoreiddio'r holl gynlluniau arbedion a oedd yn cyfrannu at gyllideb 2012/13 yn seiliedig ar y risg na fyddent yn cael eu cyflawni. Roedd cynlluniau gyda'r risg uchaf o beidio cael eu cyflawni wedi eu nodi'n goch a'r rheini gyda'r risg leiaf wedi eu nodi'n wyrdd. Asesiad cychwynnol yr Adran Gyllid oedd hwn ac a wnaed yn annibynnol ar y meysydd gwasanaeth. Cynhelid asesiad risg hefyd wedyn mewn cydweithrediad gyda gwasanaethau.

Roedd y ffigyrau yn y tabl ym Mharagraff 2.1 yr adroddiad yn cynrychioli symiau llawn y cynlluniau arbed. Dim ond cyfran o'r symiau sydd mewn perygl o beidio cael eu cyflawni. Roedd paragraff 2.2 yr adroddiad yn nodi'r prif feysydd lle 'roedd risg bosib o beidio â chyflawni'r arbedion llawn. Roedd yna hefyd nifer o brosiectau dan y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy wedi eu cynnwys yng nghyllideb 2012-13 yr oedd risg uchel na fyddent yn cael eu cyflawni yn eu cyfanrwydd ac fe gyfeiriwyd at y rheini ym mharagraff 3.1 yr adroddiad.

Roedd y cyfan o'r risgiau hyn yn feysydd risg uchel i gyllideb 2012-13. Roedd yn bwysig felly bod cymorth ychwanegol yn cael ei roi i'r meysydd hyn o ran materion prosiect ac ariannol fel bod modd cynorthwyo gyda'r gwaith o reoli cynigion fel eu bod yn cael eu gwireddu. Roedd hefyd yn bwysig dyrannu atebolrwydd ar gyfer y gwasanaethau corfforaethol eang hyn i sicrhau bod eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am eu cyflawni a bod ganddynt yr awdurdod i yrru'r cynigion fel eu bod yn cael eu gwireddu.

Byddai nifer o feysydd yn cael eu hadolygu yn 2012-13 a'r tu draw i hynny gyda'r nod o gynorthwyo i leddfu'r pwysau a all godi o'r risgiau a nodwyd ac i ddarparu llwyfan ar gyfer cynllunio y tu hwnt i 2012/13. Roedd manylion am y rhain i'w gweld ym mharagraff 4.1.1 i baragraff 4.1.9 yr adroddiad ond nid oedd hon yn rhestr hollgynhwysol o brosiectau a oedd am gael eu hadolygu i gynorthwyo i leddfu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gyllideb. Roedd risgiau eraill fel y broses arfarnu swyddi, grant budd-dal tai, budd-dal y dreth gyngor, digartrefedd, costau'r Comisiynwyr, cynaliadwyedd y sylfaen dreth, chwyddiant a risgiau corfforaethol cyfredol. Dylid adolygu cyllidebau'n rheolaidd trwy weithdrefnau monitro cyllideb a gweithdrefnau adolygu eraill i sicrhau bod risgiau'n cael eu lliniaru.

Byddai asesiad risg pellach yn cael ei wneud unwaith y byddai'r holl wasanaethau wedi cwblhau eu cynlluniau ar gyfer sut y byddent yn cyflawni'r arbedion, a byddai'r asesiadau risg hynny'n ystyried risgiau sy'n ailgodi o 2011/12 a risgiau eraill sy'n codi a oedd yn cael sylw ar hyn o bryd yn 2011-12.

Roedd y Strategaeth Ariannol Tymor Canol yn proffwydo diffygion ariannol sylweddol dros y 3 blynedd nesaf. Roedd yn hollbwysig felly bod y broses cynllunio cyllideb ar gyfer 2013-14 a thu draw i hynny'n dechrau'n fuan, gyda strategaethau'n cael eu datblygu nid yn unig i gwrdd â'r bwlch cyfredol a ragwelir, ond hefyd i fod yn ddigon hyblyg i gwrdd ag unrhyw sefyllfa a all godi.

Roedd y Cynghorydd H. Eifion Jones yn croesawu bwriad yr UGA i drafod y ddogfen yn gorfforaethol ond roedd yn dymuno gweld cynllun atebolrwydd a chynllun gweithredu er mwyn gweld pwy oedd yn gwneud beth mewn perthynas â'r amryfal faterion a godwyd yn yr adroddiad.

*Nododd y Bwrdd Cynaliadwyedd gynnwys yr adroddiad a'r angen i adolygu'r asesiad hwn gyda'r gwasanaethau a chynnal asesiad risg cyllidebol pellach ar gyfer 2012-13 ac adrodd yn ôl i'r Bwrdd Comisiynwyr unwaith yr oedd y gwasanaethau wedi cwblhau eu cynlluniau ar gyfer sut yr oeddent yn mynd i gyflawni'r arbedion hynny.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 1:25pm**

**Y COMISIYNYDD GARETH JONES**
**CADEIRYDD**